

Cyngor Cymuned Pentir

Cynhelir cyfarfod Rhithiol o'r Is Bwyllgor Cyllid am 7.00pm nos Fercher 24^{ain} o Fawrth 2021

Agenda

Cod Presennol

Ymddiheuriadau

Ymddygiad

Cofnodion Cyfarfod diwethaf 24-02-2021

Materion yn codi o'r cofnodion

Adroddiad Ariannol

Archwylwyr Allannol Diweddariad

Taliadau angen sylw

Cyflog Mawrth	£599.84
Treth Incwm Mis Mawrth	£150.00
Delwedd	£431.28
Cymen Cyfieithu IBC	£392.81
Trydan y Capel	£ 50.87
Llrau cysgodfannau	£1050.00
Rhys Jones Trydanwr Diffibs	£441.90
Gosod polion y Diffibs	£2160.00
Torri Gwair Cae Chwarae Caerhun	£295.00
Costau'r Clerc 2020-21	£388.80
Hughes Jones Dyson Cyfrifwyr x 3	Cyfrifon 18 - 19 a 19-20 a cyfloga 19-20
	£360 £360 £168

Ceisiadau Nawdd

Clwb y Garnedd
Ysgol Tryfan
Canolfan Glasinfryn
Clwb Ioga Glasinfryn

Prosiectau

Prosiect Ysgol Y Faenol
Septic Tanc Glasinfryn
Llrau cysgodfannau - Ffenestri Sgwar wedi cychwyn ar y gwaith

I'w trafod hefyd

- Yswiriant
- Telerau y fynwent
- Asesu Risg

Cofnodion Cyngor Cymuned Pentir
Cyfarfod o'r Is Bwyllgor Cyllid nos Fercher 24^{ain} o Chwefror 2021
yn Rhithiol am 7.00pm.

Presennol Cyng L A James (Cadeirydd) Cyng D Jones-Morris Cyng D W Jones a Cyng B Jones, Cyng J Pierce

Ymddiheuriadau Pawb yn bresennol

Cyfarfod arbennig am 6.45

Cyn i'r Cadeirydd gyrraedd bu i'r 4 Cynghorydd arall gyfarfod i drafod ymrwymiad a chyfraniad y Cadeirydd tuag at waith y Cyngor yn enwedig ei ymrwymiad i brosiect y Ganolfan newydd / Ysgol Y Faenol ers y cychwyn cyntaf yn 2018-19.

Oherwydd hynny ag hefyd am ei gwaith fel Cadeirydd yr Is-Bwyllgor Cyllid mae'r 4 Cynghorydd yn cynnig ein bod yn ymgymeryd a Penderfyniad 44 isod ag yn talu £500 i'r Cyng L A James am y flwyddyn 2020-21

Penderfyniad 42: Rhaid i bob cyngor cymuned a thref sicrhau bod taliad o £150 y flwyddyn ar gael i'w aelodau fel cyfraniad tuag at gostau a threuliau.

Penderfyniad 44: Gall cynghorau tref a chymuned yng Ngrwpiau B neu C wneud taliad blynyddol o hyd at £500 yr un i hyd at 5 aelod i gydnabod cyfrifoldebau penodol. Mae hyn yn ychwanegol at y taliad o £150 am gostau a threuliau.

Cynnig ydio fydd rhaid i'r Cyngor Llawn ei gymeradwyo/gadarnhau

Cod Ymddygiad

Atgoffa pawb o'r Cod ymddygiad ag os oedd gan rhywun angen datgan buddiant yna byddai angen iddynt wneud hynny ar lafar heno fel y gallai'r Clerc gofnodi

Cofnodion Cyfarfod diwethaf 24-01-2021

Cyng B Jones yn cynnig a'r Cyng J Pierce yn eilio eu bod yn gofnodion cywir

Materion yn codi o'r cofnodion

Biniau Halen - Biniau ffordd Fodolydd a Rhosfryn yn llawn Cyng J Pierce am holi am gyflwr rhai Hafod yr Haf a Ffordd Wern

Septic Tanc Glasinfryn – Cwmni A Thomas wedi ymweld a chynnal syrfe hefo camera

Darganfod fod y bibell yn rhedeg lawr canol y trac yn hytrach na dan y maes parcio

Clerc wedi cysylltu hefo yr arbenigwr Bill Font a hwnnw wedi datgan y bydd yn symud ymlaen felly i drefnu gyda Dwr Cymru i gael caniatad cysylltu a holi Cyngor Gwynedd ynglyn a thyllu y trac – Bill Font hefyd yn awyddus i A Thomas gysylltu ag o i drafod lefelau a.y.y.b.

Adroddiad Ariannol

Dosbarthwyd taflen ariannol y rhithiol

Dangos £28,953.66 yn y cyfrif Cyfredol a £25,037.19 yn y cyfrif cadw

Archwylwyr Allannol

Dim i adrodd yn ol

Cadarnhawyd y taliadau a ganlyn

Cyfloga	Chwefror	£599.84
Treth Incwm	Chwefror	£150.00

Ceisiadau Nawdd

Dosbarthwyd rhestr o'r mudiadau/grwpiau oedd wedi derbyn nawdd hyd yma eleni oedd yn dangos cyfanswm o £2,400.00 sydd yn is na haner y swm sydd wedi ei glustnodi ar gyfer Ad 137 sef £5000.00

Cais yn unig oedd wedi dod gerbron gan Cyfeillion Ysbyty Gwynedd

Bu i Cyng J Pierce ddatgan buddiant gyda'r grwp a ni chymerodd unrhyw ran yn y trafodaeth

'Roedd y cais wedi ei dderbyn yn electronig ag wedi ei rannu gyda'r holl Gynghorwyr

Tynwyd sylw at ran o'r e-bost oedd yn cyfeirio at prosiect arbennig oedd y cyfeillion wedi ei gymeradwyo

Fe gymeradwyd prynu Noise Meters i'r Uned Gofal Dwys yn ystod mis Tachwedd 2020 i'w cynorthwyo yn eu gwaith - cost o £882.00.

Bu i'r Cyngor ystyried cefnogi prosiectau arbennig yn y gorffennol ag oherwydd hynny argymhellir i'r Cyngor Llawn ein bod yn cefnogi y cais yma i swm o £882.00

Prosiectau

- I. Prosiect Ysgol Y Faenol Cyng L A James yn cadarnhau iddo fod wedi trafod dylunio logo hefo'r person sy'n dylunio logo ar gyfer yr Ysgol a chael pris o £200 -£250.00 ganddi
'Roedd cryn drafodaethau wedi cymeryd lle dros arwyddion y Ganolfan gan fod Cyngor Pentir yn awyddus i weld yr arwyddion wedi eu goleuo i fyny ond na fyddai hynny'n bosib hefo'r arwyddion mewn llythrennau oedd yn y cynlluniau gwreiddiol. 'Roedd posibilrwydd y byddai rahid mynd yn ol i'r Cais Cynllunio gwreiddiol i newid yr arwyddio mewn llythrennau ag yn bendant tae ni'n gofyn am ei goleuo i fyny.
Cyfaddawdu i barhau gyda'r logo a sicrhau fod yn gwynebu pawb ar y wal wrth y fynedfa
Angen holi am amserlen
Clerc i holi hefo Gwynedd
- II. Septic Tanc Glasinfryn Nodwyd dan Materion yn codi
- III. Llnau cysgodfannau - Dwy gysgodfa eisioes wedi eu glanhau i safon uchel Gweddill i'w llnau cyn diwedd Mawrth
- IV. Edrychwyd ar ein gwariant gan nad oedd yn debygol bellach fod posib cael gosod cysgodfan yn Nant y Mownt oedd wedi ei ariannu ar gyfer 2019-20 a felly syrfed oddeutu £2,500
Nodwyd fod gwaith walio rhwng giat y fynwent newydd a 'r wal derfyn bileri – oddeutu 30 metr
Clerc i holi am amcanbris

Asesu Risg

Dim diweddariad mis yma

Daeth y cyfarfod i ben am 8.45